**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-980
Ein cyf/Our ref RE/00429/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

10 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr, yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynglŷn â chymorth grant ardrethi annomestig i fusnesau.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth gwerth £1.7 biliwn i helpu busnesau yng Nghymru yn ystod argyfwng y coronafeirws. Mae'r pecyn yn cynnwys dros £350m i helpu busnesau gyda'u biliau ardrethi annomestig yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ochr yn ochr â'r rhyddhad ardrethi ychwanegol hwn, mae dros £875m ar gael ar gyfer cynllun grantiau sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig, sef grantiau i fusnesau a sefydliadau nid-er-elw.

Yng Nghymru, mae'r Gronfa Cadernid Economaidd, a gafodd ei lansio ar 30 Mawrth, wedi darparu cymorth ychwanegol i fusnesau nad ydynt yn gymwys i gael grantiau sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig, yn ogystal â darparu amrywiaeth o gymorth busnes arall. Mae'r gronfa hon yn cefnogi cwmnïau o bob maint, gan ganolbwyntio ar y rheini nad ydynt wedi elwa ar ryddhad ardrethi a grantiau i'w helpu i ymdopi ag effeithiau'r coronafeirws. Roedd y cymorth hwn yn ei le cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi cronfa yn ôl disgresiwn yr awdurdodau lleol.

Cafodd Cam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd ei gyhoeddi ar 22 Mai. Bydd hyn yn golygu y bydd yn bosibl cael mynediad at y £100m sy'n weddill o'r £300m sydd eisoes wedi cael ei gymeradwyo a'i ddyrannu i gefnogi microfusnesau, busnesau bach a chanolig, a busnesau mawr. Bydd cwmnïau cyfyngedig, nad ydynt wedi eu cofrestru ar gyfer TAW, bellach yn gallu cael mynediad at gyllid y gronfa.

Yn y cyfamser, rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ymestyn ei chymorth, gan ddarparu'r cyllid hanfodol y mae ei angen ar fusnesau Cymru, er mwyn iddynt allu goroesi, ac adfer o effeithiau'r coronafeirws.

Rydym wedi ail-flaenoriaethu cyllidebau i greu'r cynnig cymorth mwyaf hael i fusnesau yn y DU, er mwyn cefnogi busnesau cynaliadwy a'r swyddi y maent yn eu darparu. Mae'r pecyn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

£1.7bn yr ydym wedi ei neilltuo yn fwy na’r cyllid cysylltiedig yr ydym wedi ei gael gan Lywodraeth y DU, er mwyn inni allu cynnig y cymorth gorau posibl yn ystod yr argyfwng hwn.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd